BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

*Seventh Senedd Consultation – Part 2 – Spring 2025*

# Ymgynghoriad yn cynnig cadw cyflogau Aelodau ar yr un lefel yn y Senedd nesaf

Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi lansio ail ran ei ymarfer ymgynghori wrth iddo adolygu'r adnoddau a fydd ar gael i Aelodau o'r Senedd yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2026.

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar sut y caiff cyflogau'r Aelodau a'u staff eu pennu ar ddechrau'r Senedd nesaf, ynghyd â chymorth ychwanegol i leihau rhwystrau i Aelodau sy'n anabl neu sydd â chyfrifoldebau gofalu. Mae'n rhan o ymarfer mawr gan y Bwrdd i adolygu ei Benderfyniad wrth i'r Senedd baratoi i ddod yn gorff â 96 o Aelodau.

Mae'r cam hwn o'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Tâl yr Aelodau
- Cymorth ychwanegol i'r Aelodau
- Cymorth staffio
- Costau teithio

**Dr Elizabeth Haywood yw Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd:**

"Mae'r Aelodau o'r Senedd yn chwarae rhan hanfodol yn ein democratiaeth ac rydym yn credu y dylai eu cyflog adlewyrchu'r rôl honno a'u cyfrifoldebau. Rydym hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth a chydraddoldeb, gan leihau'r rhwystrau fel y gall y Senedd adlewyrchu cymdeithas, lle y gall unrhyw un, waeth beth fo'i gefndir neu ei amgylchiadau, ddod yn Aelod o'r Senedd. Mae angen adnoddau ar yr Aelodau hefyd i gyflogi staff i roi cymorth gwerthfawr iddyn nhw a'u hetholwyr.

"Ar ôl ystyriaeth ofalus, ein barn ni yw bod lefel cyflog presennol yr Aelodau yn deg ac yn adlewyrchu eu rôl a'u cyfrifoldebau. Rydym felly yn cynnig y dylai barhau ar yr un lefel yn y Senedd nesaf, gan gynyddu dim ond yn unol ag ASHE (sef enillion cyfartalog Cymru) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd."

"Rydym yn cydnabod y gall lefel cyflog Aelodau etholedig ysgogi dadl a pheth anghytuno, ac rydym yn annog pob darn o adborth ar y materion pwysig hyn."

"Mae ein cynigion wedi'u llywio gan ein dyletswyddau statudol a'n hegwyddorion craidd er mwyn sicrhau bod tâl yr Aelodau'n deg a'u bod yn cael digon o adnoddau i gefnogi eu dyletswyddau, a sicrhau bod penderfyniadau'n cynnig gwerth am arian."

Mae’r ymgynghoriad yn agor ar 2 Ebrill, ac yn dod i ben am 17:00, dydd Mercher 4 Mehefin 2025. Mae gwybodaeth am y cynigion a sut i gyflwyno sylwadau ar gael ar wefan y Bwrdd.

Dyma’r ail ymgynghoriad yn adolygiad dwy ran y Bwrdd o’i Benderfyniad ar gyfer y Senedd nesaf wrth iddi Senedd baratoi ar gyfer y newid mwyaf ers datganoli – dod yn senedd â 96 o Aelodau, a chanddi fwy o bŵer i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, llunio cyfreithiau newydd a chynrychioli pobl Cymru yn well.

Ar gyfer yr etholiad ym mis Mai 2026, bydd ffiniau etholaethol diwygiedig hefyd yn cael eu cyflwyno o dan system etholiadol newydd, lle bydd chwe Aelod yn cynrychioli pob un o’r 16 o etholaethau newydd.

Bydd hyn yn gofyn am newidiadau sylweddol i'r Penderfyniad ac i'r Bwrdd benderfynu ar y cymorth priodol i Aelodau i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol, tra hefyd yn sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru.

**DIWEDD**

**Nodiadau i'r golygyddion**

Gall tîm newyddion Comisiwn y Senedd hwyluso ceisiadau am ragor o wybodaeth.
Cysylltwch ar 0300 200 7487 neu newyddion@senedd.cymru

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd – y corff annibynnol sy’n gwneud penderfyniadau ar gyflogau’r Aelodau a’r adnoddau sydd ar gael iddynt i wneud eu gwaith yn effeithiol – yn gwahodd sylwadau ar newidiadau arfaethedig i’r darpariaethau a’r cymorth a fydd ar gael i’r Aelodau yn y Senedd nesaf, ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2026.

Mae ail gam yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cyflog yr Aelodau: mae’r Bwrdd yn cynnig y bydd lefel cyflog yr Aelodau ar ddechrau’r Seithfed Senedd yn aros ar yr un lefel ag yn 2025/26, ynghyd â chynnydd sy’n hafal i gyfradd mynegai ASHE Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025.
- Cymorth ychwanegol i’r Aelodau: cynigion i ddarparu cymorth ychwanegol i Aelodau sy’n anabl neu sydd â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys addasu cymorth ar gyfer gofalu am ddibynyddion y tu allan i oriau gwaith arferol ac ar gyfer llety dros nos.
- Costau teithio: ailosod terfynau ar gostau teithio rhwng etholaethau’r Aelodau a mynychu busnes yng Nghaerdydd.
- Costau staffio: cynnig i gyflwyno fframwaith cyflogau a graddau teuluoedd swyddi ar gyfer staff cymorth, wedi’i feincnodi yn erbyn rolau sector cyhoeddus Cymru.

Cynhaliwyd cam cyntaf yr ymgynghoriad yn nhymor yr hydref 2024 ac roedd yn canolbwyntio ar lety dros nos; swyddfeydd etholaethol ac ymgysylltu; a chymorth i grwpiau’r Senedd.

Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi ei benderfyniad terfynol ar ôl cwblhau’r ddau ymgynghoriad yn haf 2025.

Mae’r ymgynghoriad ar gael ar wefan y [Bwrdd Taliadau]

Mae’r Bwrdd yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y taliadau a'r adnoddau cywir ar gael i Aelodau o’r Senedd fel y gallant gyflawni eu rôl. Mae hyn yn cynnwys pennu cyflogau’r Aelodau yn ogystal â chymorth arall iddynt megis costau staffio a swyddfa.

Mae cyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir yn sail i waith y Bwrdd:

- dylai cymorth ariannol a thâl yr Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;
- rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
- rhaid i’r system o gymorth ariannol i’r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i’r trethdalwr.

[Rhagor o wybodaeth]

## Consultation proposes no change to Members’ pay at next Senedd

The Independent Remuneration Board has launched the second part of its consultation exercise as it reviews the resources that will be available to Members of the Senedd following the election in May 2026.

The proposals in this consultation focus on how pay for Members and their staff will be set at the start of the next Senedd, along with additional support to reduce barriers for Members who are disabled or who have caring responsibilities. It forms part of a major exercise by the Board to review its Determination as the Senedd prepares to become a parliament of 96 Members.

This phase of the consultation focuses on:

- Members’ pay
- Additional support for Members
- Staffing support
- Travel costs

**Dr Elizabeth Haywood is the Chair of the Independent Remuneration Board of the Senedd:**

”Members of the Senedd play a vital role in our democracy and we believe their pay should reflect that role and their responsibilities. We are also committed to promoting and supporting diversity and equality, reducing barriers so that the Senedd can reflect society, where anyone, no matter their background or circumstances, can become a Member of the

Senedd. Members also require resources to employ staff to provide valued support to them and to their constituents.

"After careful consideration, our view is that the current salary level for Members is fair and reflects their role and responsibilities. We are therefore proposing that it should continue at the same level in the next Senedd, only increasing in line with ASHE (the average earnings in Wales) published in November.

"We recognise that the level of elected Members' pay can generate debate and some disagreement, and we encourage all feedback on these important issues."

"Our proposals have been shaped by our statutory duties and core principles to ensure that Members' remuneration is fair and that they are provided with sufficient resources to support their duties, and that decisions represent value for money."

The consultation opens on 2 April, and will close at 17:00, Wednesday 4 June 2025. Information about the proposals and how to submit views is available on the Board's website.

This is the second consultation of the Board's two-part review of its Determination for the next Senedd as it prepares for the biggest change since devolution – becoming a parliament of 96 Members, with greater power to hold Welsh Government to account, develop new laws and better represent the people of Wales.

The election in May 2026 will also see the introduction of revised constituency boundaries under a new election system, where six Members will represent each of 16 new constituencies.

This will require significant changes to the Determination and for the Board to decide on the appropriate support for Members to enable them to do their jobs effectively whilst also ensuring value for money for the people of Wales.

**ENDS**

**Notes to editors:**

Requests for more information can be facilitated by the Senedd Commission news team. Please contact on 0300 200 7487 or news@senedd.wales

The Independent Remuneration Board of the Senedd – the independent body which makes decisions on Members' pay and the resources available to them to do their job effectively – is seeking views on proposed changes to the provisions and support which will be available to Members in the next Senedd, after the election in May 2026.

This second phase of the consultation will focus on:

- Members pay: the Board propose that the salary level for Members at the start of the Seventh Senedd will remain at the same level as in 2025/26, plus an increase equal to the rate of the ASHE Wales index published in November 2025.

- Additional support for Members: proposals to provide additional support for Members who are disabled or who have caring responsibilities, including adjusting support for care of dependents outside of usual working hours and for overnight accommodation.
- Travel costs: resetting limits on travel costs between Members' constituencies and attending business in Cardiff.
- Staffing costs: a proposal to introduce a job families pay and grading framework for support staff, benchmarked against Welsh public sector roles.

The first phase of the consultation was held in autumn 2024 and focused on overnight accommodation; constituency offices and engagement; and support for Senedd groups.

The Board will publish its final decision following the completion of both consultations in the summer of 2025.

The Consultation is available on the Remuneration Board website

The Board is an independent body responsible for ensuring Members of the Senedd have the appropriate remuneration and resources available to them to undertake their role. This includes setting the salaries of Members as well as their other support such as staffing and office costs.

The Board's work is underpinned by a set of clearly defined principles:

- financial support and remuneration for Members should support the strategic purpose of the Senedd and facilitate the work of its Members;
- decisions must be appropriate within the context of Welsh earnings and the wider financial circumstances of Wales;
- the system of financial support for Members must be robust, clear, transparent, sustainable, inclusive, and represent value for money for the taxpayer.

Find out more